| | |
|---|---|
| **Teitl:**<br>**Title:** | Camerâu a Dyfeisiau Recordio - Meithrinfa Toybox<br>Cameras and Recording Devices - Toybox Nursery |
| **Fersiwn:**<br>**Version** | 2 |
| **I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol?**<br>**Who does this Policy Relate to?** | Myfyrwyr / Staff / Myfyrwyr a Staff / Arall (rhowch fanylion)<br>Students , nursery staff , parents and children |

### Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Equality & Diversity

| | |
|---|---|
| Dolen at Gam 1 Asesu Effaith (ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg): / Impact Assessment Stage 1 (Equality & Welsh) link: | *Impact assessment* |
| *Effaith ar yr Iaith Gymraeg*<br><br>*Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar yr Iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.* | *Welsh Language Impact*<br><br>An impact assessment has been carried out on this policy to consider its effect on the Welsh Language in accordance with the Welsh Language Standards (94-104) and the Welsh Language (Wales) Measure 2011. |

### Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Perchennog y Ddogfen:**<br>**Document Owner:** | **Rheolwr y Feithrinfa /Nursery Manager** | | |
| **Ymgynghoriad /**<br>**Consultation:** | Staff y Feithrinfa<br>Nursery staff | | |
| **Dyddiad cymeradwyo /**<br>**Date Approved** | Cymeradwyaeth y Pwyllgor Mewnol e.e. Grŵp Diogelu / Internal Committee Approval e.g. Safeguarding Group | | - |
| | Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant /<br>Communications & Culture Committee: | | *22/01/2025* |
| | Pwyllgorau'r Bwrdd<br>/<br>Board Committees: | Pwyllgor Archwilio a Risg /<br>Audit & Risk Committee: | - |
| | | Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau /<br>Curriculum & Standards Committee | - |
| | | Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant /<br>Finance, People & Culture Committee: | - |
| | Corff Llywodraethu / Governing Body: | | - |
| **Dyddiad Adolygu:**<br>**Review Date:** | *31/01/2028* | | |

Anfonwch y ddogfen wedi ei chymeradwyo i'w chyfieithu gan ddefnyddio'r Ffurflen Cais Cyfieithu
Send approved document for Translation using the Translation Request Form

Rhifwch bob adran a pharagraff
Please number each section and paragraph

**Polisi**

1. Rydym yn sicrhau bod unrhyw luniau neu recordiadau gan gynnwys teledu cylch cyfyng a gymerir o'ch plant yn ein meithrinfa yn cael eu gwneud ond gyda chaniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan riant neu ofalwr pob plentyn. Bydd y caniatâd hwn yn cael ei roi neu beidio pan fydd plentyn yn cael ei gofrestru a bydd yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd i sicrhau bod y caniatâd hwn yn parhau neu beidio.

2. Gofynnwn am ganiatâd unigol ar gyfer ffotograffau a recordiadau fideo ar gyfer pob defnydd gwahanol, gan gynnwys defnydd yn siwrnai ddysgu'r plentyn, ar gyfer dibenion arddangos, i arddangos mewn ffrâm ddigidol, ar gyfer deunyddiau hyrwyddo gan gynnwys gwefan a llyfrynnau'r feithrinfa ac i ddefnyddio yn y wasg leol. Rydym yn sicrhau bod rhieni'n deall efallai bydd eu plentyn yn ymddangos mewn ffotograffau o blant eraill, ond heb fod y prif unigolyn ynddo, a fydd efallai yn cael eu defnyddio yn siwrneiau dysgu plant eraill. Os yw rhiant neu ofalwr yn anhapus am un neu ragor o'r defnyddiau hyn, yna bydd y feithrinfa yn parchu eu dymuniadau ac yn dod o hyd i ffyrdd eraill o recordio chwarae neu ddysgu eu plant.

3. Ni chaniateir i staff dynnu unrhyw ffotograffau na recordio plant ar eu dyfeisiau eu hunain, caniateir iddynt ddefnyddio'r dyfeisiau y mae'r feithrinfa yn eu darparu yn unig. Bydd Rheolwr y Feithrinfa ac uwch nyrsys y feithrinfa yn monitro pob ffotograff a recordiad i sicrhau y cedwir at ddymuniadau'r rhieni.

4. Ni chaniateir i rieni ddefnyddio unrhyw ddyfeisiau recordio na chamerâu ar safle'r feithrinfa heb ganiatâd ymlaen llaw gan y rheolwr.

5. Mae'r holl luniau a dynnwyd yn y feithrinfa yn parhau i fod yn eiddo i Feithrinfa Toybox. Caniateir anfon lluniau i gartref plentyn dim ond os mai'r plentyn hwnnw yw'r unig un yn y llun. Bydd yr holl luniau a ddefnyddir yn cael eu dinistrio unwaith y bydd y plentyn wedi gadael y feithrinfa.